



Diogelwch ar-lein

Pum cwestiwn allweddol ar gyfer cyrff
llywodraethu er mwyn helpu i herio
ysgolion a cholegau i ddiogelu eu dysgwyr
yn effeithiol

Diogelwch ar-lein

Pum cwestiwn allweddol ar gyfer cyrff llywodraethu er mwyn helpu i herio ysgolion a cholegau i ddiogelu eu dysgwyr yn effeithiol

Cynulleidfa

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan Lywodraeth Cymru a Chyngor y DU ar Ddiogelwch Plant ar y Rhyngwrdd (UKCIS) i gefnogi cyrff llywodraethu ysgolion a cholegau Cymru.

Gall hefyd fod o ddiddordeb i awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, Llywodraethwyr Cymru, ac unrhyw bartion eraill â diddordeb sydd â chyfrifoldeb arweiniol am ddiogelwch ar-lein.

Trosolwg

Nod y ddogfen hon yw helpu cyrff llywodraethu i ymgymryd â'u dyletswyddau diogelu fel bwrdd llywodraethu. Gellir ei hystyried yn ddogfen ategol i ganllawiau statudol Llywodraeth Cymru *Cadw dysgwyr yn ddiogel*, sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant. Mae hyn yn cynnwys helpu ysgolion i ddarparu amgylchedd diogel, cyfrifol a chefnogol ar gyfer dysgu, ac atal mynediad at gynnwys amhriodol neu niweidiol.

Camau i'w cymryd

Nid oes angen cymryd camau. Canllaw yn unig yw'r ddogfen hon, a'i bwriad yw helpu cyrff llywodraethu i sicrhau y caiff arferion da o ran polisiau a darpariaeth diogelwch ar-lein eu dilyn yn eu hysgol neu goleg.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Gangen Cadernid Digidol mewn Addysg

Uned Dysgu Digidol

Is-adran Cyfathrebu Digidol a Strategol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: hwb@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Hwb

hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein

Cynnwys

Pum cwestiwn allweddol	2
1. A oes polisi diogelwch ar-lein a pholisi defnydd derbyniol cyfredol ar waith yn yr ysgol/y coleg? Sut mae'r ysgol/y coleg yn asesu bod y polisïau hyn yn glir, ac yn cael eu deall a'u parchu gan y plant a'r staff i gyd?	2
2. Pa systemau sydd ar waith gan yr ysgol/y coleg i gefnogi dysgwyr, staff a rhieni/gofalwyr sy'n wynebu materion yn ymwneud â diogelwch ar-lein?	4
3. Sut ydych yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelwch ar-lein sy'n briodol, yn berthnasol ac yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd?	6
4. Disgrifiwch sut mae eich ysgol/coleg yn darparu'r dysgu sy'n ofynnol i addysgu plant a phobl ifanc i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a hyder mewn perthynas â diogelwch ar-lein.	8
5. Sut mae'r ysgol/y coleg yn addysgu rhieni/gofalwyr a chymuned gyfan yr ysgol/y coleg am ddiogelwch ar-lein?	10
Helpu eich ysgol/coleg i wella arferion mewn perthynas â diogelwch ar-lein	11
360 degree safe Cymru	11
Parth diogelwch ar-lein ar Hwb	11
Hyfforddiant	11
Dogfennau cysylltiedig Llywodraeth Cymru	11
Ffynonellau eraill o gymorth ar gyfer diogelwch ar-lein	12

Pum cwestiwn allweddol

1. A oes polisi diogelwch ar-lein a pholisi defnydd derbyniol cyfredol ar waith yn yr ysgol/y coleg? Sut mae'r ysgol/y coleg yn asesu bod y polisiâu hyn yn glir, ac yn cael eu deall a'u parchu gan y plant a'r staff i gyd?

Beth i chwilio amdano?

- Gwaith adolygu rheolaidd sy'n systematig ac yn cael ei gofnodi o bolisiâu diogelu, gan gynnwys diogelwch ar-lein, o leiaf unwaith y flwyddyn.
- Tystiolaeth bod polisiâu diogelwch ar-lein ar gael yn rhwydd ac yn cael eu cyfleu'n glir (e.e. ar wefan yr ysgol/y coleg, mewn llawlyfrau staff, ar bosteri, ac ati).
- Dysgwyr, staff a rhieni/gofalwyr sy'n ymwybodol o reolau a disgwyliadau o ran diogelwch ar-lein, ac yn eu parchu.

Beth yw arfer da?

- Cydweithio wrth gynhyrchu ac adolygu polisiâu, er enghraifft, tystiolaeth bod barn dysgwyr a rhieni yn cael ei defnyddio'n weithredol yn ogystal â thystiolaeth bod ystyriaeth berthnasol yn cael ei rhoi i safonau cenedlaethol a rhyngwladol mewn perthynas â diogelwch ar-lein.
- Tystiolaeth o brosesau monitro a gwerthuso er mwyn sicrhau y caiff polisiâu diogelwch ar-lein eu deall a'u dilyn.
- Dysgwyr, staff a rhieni/gofalwyr sy'n effro i ymddygiadau a disgwyliadau o ran diogelwch ar-lein, gan gynnwys y defnydd derbyniol o dechnolegau a'r defnydd o dechnoleg symudol.
- Polisi diogelu plant yr ysgol/y coleg yn cydnabod pryderon ynghylch camdriniaeth rhwng cyfoedion sy'n gallu digwydd ar-lein.
- Polisiâu diogelwch ar-lein sy'n gysylltiedig â pholisiâu eraill neu'n rhan ohonynt, megis polisiâu diogelu ac amddiffyn plant, polisi ymddygiad dysgwyr (gan gynnwys gwrth-fwlio), cod ymddygiad staff.
- Polisiâu nad ydynt yn defnyddio iaith sy'n beio'r dioddefwr, ond yn hytrach yn herio iaith o'r fath lle y bo'n briodol, ac yn derbyn nad yw plant byth yn gyfrifol am y niwed y gallant ei brofi, yn arbennig wrth ystyried cyd-destun ar-lein/natur hollbresennol technoleg y cyfryngau cymdeithasol.

Pryd y dylech fod yn bryderus?

- Dim polisiau diogelwch ar-lein neu rai tenau iawn.
- Polisiau sy'n gyffredinol ac nad ydynt yn berthnasol yn benodol i anghenion dysgwyr yn yr ysgol/y coleg.
- Dim gwaith i adolygu polisiau diogelwch ar-lein neu waith adolygu afreolaidd.
- Polisiau yn bodoli ond nid ydynt yn cael eu hyrwyddo i gorff yr ysgol/y coleg a/neu nid ydynt yn gyfarwydd i'r staff, y dysgwyr na'r rhieni/gofalwyr.

2. Pa systemau sydd ar waith gan yr ysgol/y coleg i gefnogi dysgwyr, staff a rhieni/gofalwyr sy'n wynebu materion yn ymwneud â diogelwch ar-lein?

Beth i chwilio amdano?

- Diogelwch ar-lein yn cael ei nodi'n glir fel mater diogelu o fewn rolau a chyfrifoldebau pob aelod o staff yr ysgol/y coleg, gyda'r uwch-berson dynodedig ar gyfer amddiffyn plant yn cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol.
- Dull gweithredu ysgol gyfan/coleg cyfan, gyda sianeli hysbysu cadarn a gaiff eu diffinio'n dda a'u deall yn glir, ac sy'n gyson ac yn gyfarwydd i holl staff yr ysgol/y coleg, y dysgwr a'r rhieni/gofalwyr.
- Gweithdrefnau amlwg a gofnodwyd yn glir ar gyfer ymateb i wahanol risgiau ar-lein, e.e. secstio, tynnu lluniau ar y slei ('upskirting'), bwlio ar-lein a meithrin perthynas amhriodol ar-lein.
- Dysgwyr, staff a rhieni/gofalwyr sy'n deall natur sensitif camdriniaeth ar-lein yn ogystal â hawliau unigolion.
- Cysylltiadau â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill, e.e. chwythu'r chwiban, rheoli honiadau, cwynion, ac ati.
- Staff arweinyddiaeth sy'n ymwybodol o'r penderfyniadau a wneir gan yr ysgol/y coleg mewn perthynas â rhoi trefniadau hidlo a monitro priodol ar waith ac sy'n deall y penderfyniadau hyn.
- Gwaith adolygu rheolaidd o ddarpariaethau hidlo a monitro fel rhan o gyfrifoldebau diogelu, e.e. tystiolaeth o gyfathrebu rhwng staff technegol ac uwch-bersonau dynodedig.

Beth yw arfer da?

- Adolygu darpariaeth yn rheolaidd gan ddefnyddio adnodd hunan-adolygu 360 Safe Cymru a chynnwys adolygiad 360 mewn cyfarfodydd tîm.
- Systemau hysbysu ar-lein ar gyfer dysgwyr a rhieni/gofalwyr.
- Pob aelod o staff yn ymwybodol o ffynonellau cymorth ar gyfer materion yn ymwneud â diogelwch ar-lein, megis y Llinell Gymorth Diogelwch Ar-lein i Weithwyr Proffesiynol, Rhoi Gwybod am Gynnwys Niweidiol, CEOP a Sefydliad Gwarchod y Rhynggrwyd (mae rhestr o URLs ar gael yn yr adran 'Ffynonellau eraill o gymorth ar gyfer diogelwch ar-lein').
- Uwch-berson dynodedig a dirprwyon sydd â'r sgiliau priodol ac sydd wedi cael eu hyfforddi i ddelio â'r gwahanol risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch ar-lein. Gall fod aelodau ychwanegol o'r staff wedi'u henwebu i roi cymorth yn y maes hwn gan ddefnyddio eu harbenigedd.
- Dylai pob aelod o'r staff gael hyfforddiant priodol ar ddiogelu ac amddiffyn plant, gan gynnwys diogelwch ar-lein, sy'n cael ei ddiweddar'u rheolaidd.
- Strategaethau cymorth gan gyfoedion effeithiol sydd wedi'u cynllunio, e.e. systemau hysbysu/prosesau uwchgyfeirio a gefnogir gan holl staff yr ysgol/y coleg.

- Gwaith archwilio ymddygiad a risgiau ar-lein sy'n darparu gwybodaeth sylfaenol gan y dysgwyr am y lefelau a'r mathau o faterion ar-lein sy'n gyffredin yn yr ysgol/y coleg.
- Dysgwyr yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r ddarpariaeth gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u harbenigedd eu hunain, gweithgareddau cyfoedion, a gweithgareddau llais y dysgwr.
- Gwaith gwerthuso rheolaidd mewn perthynas â sianeli hysbysu a gweithdrefnau ymateb.
- Gwybodaeth/data am ddiogelwch ar-lein yn cael eu nodi yn adroddiad y pennaeth i'r corff llywodraethu.
- Penderfyniadau priodol ynghylch hidlo a monitro yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol ag anghenion yr ysgol/y coleg a gwybodaeth berthnasol yn cael ei chyfleu'n glir i'r staff, y dysgwyr a'r rhieni/gofalwyr.

Pryd y dylech fod yn bryderus?

- Dim sianeli hysbysu mewn lle, neu sianeli sy'n aneglur neu'n anghyson.
- Dim prosesau cofnodi er mwyn galluogi'r ysgol/y coleg i nodi a monitro pryderon.
- Dysgwyr a rhieni/gofalwyr nad ydynt yn ymwybodol o sianeli hysbysu, neu nad ydynt yn ymddiried ynddynt.
- Staff yn ansicr sut i gefnogi dysgwyr a rhieni/gofalwyr gyda phryderon ynghylch diogelwch ar-lein.
- Nid oes dulliau hidlo a monitro priodol ar waith, a/neu mae diffyg dealltwriaeth o'r penderfyniadau a wneir gan y tîm arweinyddiaeth mewn perthynas â hidlo a monitro priodol.

3. Sut ydych yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelwch ar-lein sy'n briodol, yn berthnasol ac yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd?

Beth i chwilio amdano?

- Digwyddiadau hyfforddi ar Barth diogelwch ar-lein Hwb.
- Hyfforddiant sy'n gwella gwybodaeth ac arbenigedd y staff o ran ymddygiad diogel a defnydd priodol o dechnoleg.
- Archwiliadau o anghenion hyfforddiant yr holl staff.
- Hyfforddiant ar ddiogelwch ar-lein sy'n rhan annatod o'r hyfforddiant diogelu sy'n ofynnol ar gyfer pob aelod o'r staff, a gynhelir o leiaf unwaith y flwyddyn. Hyfforddiant ar ddiogelwch ar-lein sy'n rhan annatod o broses sefydlu pob aelod newydd o staff.
- Hyfforddiant ar ddiogelwch ar-lein a gaiff ei gydlynu gan yr uwch-berson dynodedig.
- Tystiolaeth bod yr uwch-berson dynodedig (a'i ddirprwyon) wedi sicrhau bod ganddynt wybodaeth a sgiliau cadarn mewn perthynas â diogelwch ar-lein.

Beth yw arfer da?

- Uwch-berson dynodedig a'u dirprwyon â lefel uwch o hyfforddiant, gwybodaeth ac arbenigedd o ran materion yn ymwneud â diogelwch ar-lein, gyda chyfrifoldebau a ddiffinnir yn glir mewn perthynas â darpariaeth diogelwch ar-lein ar gyfer cymuned yr ysgol/y coleg.
- Arbenigedd o ran diogelwch ar-lein yn cael ei ddatblygu ar draws carfan o staff er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth a sgiliau eu trosglwyddo a'u cynnal.
- Hyfforddiant ar ddiogelwch ar-lein yn cael ei sefydlu'n glir fel rhan o hyfforddiant diogelu ehangach yr ysgol/y coleg.
- Cynnwys hyfforddiant yn cael ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu ymchwil gyfredol a datblygiadau ym maes technoleg yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau lleol.
- Hyfforddiant ar ddiogelwch ar-lein yn cael ei roi i bob aelod newydd o staff fel rhan o'r broses sefydlu.

Pryd y dylech fod yn bryderus?

- Uwch-berson dynodedig a'u dirprwyon heb hyfforddiant nac awdurdod priodol o ran diogelwch ar-lein.
- Dim person/grŵp cydnabyddedig ar gyfer diogelwch ar-lein, neu berson/grŵp heb hyfforddiant nac awdurdod priodol.
- Diffyg hyfforddiant ar gyfer yr holl staff neu hyfforddiant nad yw'n gyfredol.
- Mae rhai aelodau o'r staff heb gael unrhyw hyfforddiant ar ddiogelwch ar-lein.
- Nid yw'r staff yn diweddarau eu hyfforddiant yn rheolaidd (o leiaf unwaith y flwyddyn).
- Nid yw'r hyfforddiant ar ddiogelwch ar-lein yn diwallu anghenion y staff.
- Hyfforddiant yn seiliedig ar hen adnoddau/deunyddiau, neu ddeunyddiau nad ydynt yn gywir.
- Diffyg eglurder ynglŷn â phwy sy'n cydlynu hyfforddiant staff.

4. Disgrifiwch sut mae eich ysgol/coleg yn darparu'r dysgu sy'n ofynnol i addysgu plant a phobl ifanc i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a hyder mewn perthynas â diogelwch ar-lein.

Beth i chwilio amdano?

- Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn cael ei roi ar waith, a sgiliau, gwybodaeth ac agweddau digidol yn cael eu ymwreiddio ym mhob rhan o'r cwricwlwm a'u cynnwys mewn gwersi.
- Rhaglen addysg wedi'i chynllunio ar ddiogelwch ar-lein sy'n:
 - cael ei haddysgu ar draws pob grŵp oedran ac yn datblygu wrth i ddysgwyr dyfu a datblygu
 - cynyddol ac yn cael ei chynnal dro ar ôl tro yn hytrach na sesiwn untro ar ddiogelwch ar-lein
 - helpu dysgwyr i ddatblygu strategaethau ar gyfer delio a'r byd ar-lein a datblygu cydnerthedd
 - cael ei chynnwys ym mhob rhan o'r cwricwlwm
 - ymgorffori/defnyddio mentrau a chyfleoedd cenedlaethol perthnasol megis Diwrnod Defnyddio'r Rhyngwrdd yn Fwy Diogel ac Wythnos Gwrth-fwllo.
- Defnyddio adnoddau sy'n briodol ac yn gyfredol.
- Defnyddio adnoddau, gan gynnwys ymwelwyr gan ddarparwyr allanol, yn briodol i gefnogi darpariaeth fewnol ac ychwanegu ati.
- Priodol ar gyfer dysgwyr o oedranau a galluoedd gwahanol, megis dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), neu'r rheini sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.
- Dysgwyr yn gallu cofio, esbonio a defnyddio addysg ar ddiogelwch ar-lein.
- Athrawon yn cael hyfforddiant priodol, gan sicrhau bod arbenigedd a dealltwriaeth yn sail i'w haddysgu.

Beth yw arfer da?

- Caiff diogelwch ar-lein ei ymwreiddio ym mhob rhan o gwricwlwm yr ysgol/y coleg. Mae hyn yn golygu y cynllunnir cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a hyder dysgwyr o ran materion sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein fel rhan o bob gwers berthnasol, megis gwersi addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), addysg cydberthynas a rhywioldeb a Chyfrifiadureg.
- Adolygu negeseuon ar ddiogelwch ar-lein ar draws y cwricwlwm yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i ddysgwyr.
- Gweithgareddau dysgu sy'n darparu ystod amrywiol o bynciau yn ymwneud â diogelwch ar-lein sy'n adlewyrchu materion cyfredol a rhai sy'n dechrau dod i'r amlwg.
- Ymgynghori â dysgwyr yn rheolaidd drwy sianeli priodol (grwpiau dysgwyr, fforymau, ac ati) i gael mewnbwn ar y materion yn ymwneud â diogelwch ar-lein sy'n berthnasol iddynt.

Pryd y dylech fod yn bryderus?

- Sesiynau ad hoc/untro ar ddiogelwch ar-lein, megis sesiynau a gyflwynir mewn gwasanaethau yn unig.
- Defnyddio cynnwys sy'n anghywir, yn amherthnasol neu'n hen a/neu'n amhriodol ar gyfer oedran/gallu'r dysgwr.
- Defnyddio adnoddau/deunyddiau â dysgwyr sy'n dibynnu ar ddulliau sy'n peri ofn neu fraw neu sy'n beio'r dioddefwr.
- Rhaglen astudio nad yw'n gynyddol nac yn gynaliadwy, e.e. un sy'n dibynnu'n helaeth ar ddarparwyr/ymwelwyr allanol i gyflwyno addysg ar ddiogelwch ar-lein a/neu sy'n cael ei chyflwyno mewn ymateb i fater penodol.
- Dim ffordd o werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth nac asesu dealltwriaeth dysgwyr yn y maes.
- Nid yw'r ysgol/y coleg yn cynnwys materion yn ymwneud â diogelwch ar-lein fel rhan o'r ddarpariaeth addysg cydberthynas a rhywioldeb.
- Nid yw'r ysgol/y coleg yn defnyddio adnodd unan-adolygu '360 degree safe Cymru' i adolygu'r ddarpariaeth yn rheolaidd.
- Nid yw'r ysgol/y coleg yn cynnwys cymhwysedd digidol ym mhob rhan o gwricwlwm yr ysgol.

5. Sut mae'r ysgol/y coleg yn addysgu rhieni/gofalwyr a chymuned gyfan yr ysgol/y coleg am ddiogelwch ar-lein?

Beth i chwilio amdano?

- Gweithgareddau rheolaidd i gyfathrebu, codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu ynghylch materion yn ymwneud â diogelwch ar-lein a sianeli hysbysu, megis gwefannau'r ysgol/y coleg, llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau.
- Cyfleoedd rheolaidd i ymgysylltu â'r rhieni/gofalwyr ynghylch materion yn ymwneud â diogelwch ar-lein megis gweithdai ymwybyddiaeth.
- Rhannu arferion da ag ysgolion eraill mewn clystyrau a/neu'r awdurdod lleol.

Beth yw arfer da?

- Ymgysylltu'n rhyngweithiol â rhieni/gofalwyr, gyda'r nod o ddatblygu eu sgiliau a'u hyder i gefnogi eu plant a phobl ifanc wrth ddelio â risgiau ar-lein, yn ogystal â'u hymwybyddiaeth gyffredinol o faterion yn ymwneud â diogelwch ar-lein.
- Adnoddau a sesiynau rheolaidd a pherthnasol ar ddiogelwch ar-lein yn cael eu cynnig i rieni/gofalwyr. Bydd adnoddau perthnasol yn mynd i'r afael â risgiau ar-lein allweddol ac ymddygiadau dysgwyr o oeddrannau gwahanol yn yr ysgol/y coleg.
- Tystiolaeth o ddysgwyr yn addysgu rhieni/gofalwyr ac aelodau o'r gymuned.
- Gwybodaeth am ddiogelwch ar-lein sydd ar gael mewn amrywiaeth o fformatau, megis gwybodaeth ar gyfer y rheini sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.
- Parodrwydd i ymgysylltu ag ysgolion eraill ac asiantaethau lleol i hyrwyddo, rhannu, a dysgu o arferion da ac arbenigedd.

Pryd y dylech fod yn bryderus?

- Dim ymdrech i godi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â diogelwch ar-lein, neu ymdrech wan iawn.
- Dim ymgysylltu â rhieni/gofalwyr, y gymuned ehangach, ysgolion eraill na sefydliadau mewn perthynas â diogelwch ar-lein.
- Ymddygiadau ar-lein ymysg dysgwyr yn peri pryder dro ar ôl tro (megis plant ifanc yn chwarae gemau a anelir at y glasoed hŷn ac oedolion).

Helpu eich ysgol/coleg i wella arferion mewn perthynas â diogelwch ar-lein

360 degree safe Cymru

Mae adnodd hunan-adolygu [360 degree safe Cymru](#), ar gael o'r brif ddewislen pan fyddwch wedi mewngofnodi i [Hwb](#). Mae'n helpu ysgolion i adolygu eu polisïau a'u harferion mewn perthynas â diogelwch ar-lein. Dylech gadarnhau bod cyfrif gan yr ysgol ac, os oes cyfrif, pryd cafodd yr adnodd ei ddefnyddio ddiwethaf.

Parth diogelwch ar-lein ar Hwb

Mae'r [Parth diogelwch ar-lein](#) ar Hwb yn cynnwys adnoddau ar gyfer dysgwyr, rhieni a gofalwyr, athrawon a llywodraethwyr ar amrywiaeth o faterion penodol yn ymwneud â diogelwch ar-lein, gan gynnwys bwlio ar-lein, enw da ar-lein a chamwybodaeth.

Mae adnoddau mwy cyffredinol ar gael hefyd, megis y rhestr chwarae [Sut i gadw'n ddiogel ar-lein \(Llywodraethwyr\)](#), sy'n cynnig cyngor ar sut y gallwch helpu eich dysgwyr, eich ysgol a'ch gilydd i gadw'n ddiogel.

Hyfforddiant

Hyfforddiant ar ddiogelwch ar-lein

Gall ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol ym maes addysg gofrestru ar gyfer hyfforddiant a digwyddiadau ar ddiogelwch ar-lein yn y [Parth diogelwch ar-lein](#) ar Hwb. Gall arweinwyr consortia rhanbarthol digidol roi gwybod os caiff unrhyw ddigwyddiadau hyfforddi eu cynnal yn eich ardal.

Modiwlau cadw dysgwyr yn ddiogel

Mae tri modiwl ar ddiogelu ar gael i athrawon a staff, sy'n cefnogi'r canllawiau statudol [Cadw dysgwyr yn ddiogel](#). Mae dau fodiwl arall (4 a 5) sy'n canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â diogelwch ar-lein yn unig. Mae [Modiwl 4](#) ar gyfer athrawon ac mae [Modiwl 5](#) ar gyfer llywodraethwyr.

Dogfennau cysylltiedig Llywodraeth Cymru

- [Y cynllun gweithredu diogelwch ar-lein ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru](#)
- [Canllawiau drafft Cadw dysgwyr yn ddiogel Canllawiau ar sicrhau bod hidlyddion priodol a systemau monitro priodol ar waith](#)
- [Canllawiau'r Fframwaith cymhwysedd digidol](#)
- [Canllawiau ar addysg cydberthynas a rhywioldeb](#)

Ffynonellau eraill o gymorth ar gyfer diogelwch ar-lein

Canolfan Rhyngwyd Mwy Diogel y DU
www.saferinternet.org.uk/

Llinell Gymorth Diogelwch Ar-lein i Weithwyr Proffesiynol
www.saferinternet.org.uk/helpline/professionals-online-safety-helpline

CEOP: Rhoi gwybod am gam-drin rhywiol ar-lein neu gyfathrebu ar-lein sy'n peri pryder
www.ceop.police.uk/ceop-reporting/

Sefydliad Gwarchod y Rhyngwyd
report.iwf.org.uk/en

Rhoi gwybod am gynnwys niweidiol
www.saferinternet.org.uk/helpline/report-harmful-content

SchoolBeat Cymru
schoolbeat.cymru/

Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)
www.net-aware.org.uk/

Mae Gweithgor Addysg UKCIS yn cynnwys y sefydliadau canlynol:

